



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2012 Rhif 1765 (Cy.225)**

**2012 No. 1765 (W.225)**

**BWYD, CYMRU**

**FOOD, WALES**

Rheoliadau Hylendid Bwyd  
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)  
2012

The Food Hygiene (Wales)  
(Amendment) (No. 2) Regulations  
2012

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/31 (Cy.5), fel y'i diwygiwyd eisoes) ("Rheoliadau 2006"), drwy ddiweddarau'r diffiniadau o offerynnau UE penodol y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau hynny a darparu y bydd cyfeiriad at yr offerynnau UE hynny yn gyfeiriad atynt wrth i unrhyw atodiad iddynt gael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd.

1. These Regulations amend the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/31 (W.5), as already amended) ("the 2006 Regulations") by updating the definitions of certain EU instruments that are referred to in those Regulations and providing that a reference to those EU instruments is to be a reference to them as any annex to them is amended from time to time.

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2006 i ddiweddarau'r diffiniadau o offerynnau UE penodol drwy—

2. These Regulations amend the 2006 Regulations to update the definitions of certain EU instruments by—

- (a) rhoi diffiniadau o offerynnau UE penodol yn lle'r diffiniadau presennol o offerynnau UE sy'n ymddangos ar ôl y diffiniad o "mangre" ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) (rheoliad 2(2));
- (b) ychwanegu darpariaeth bod unrhyw gyfeiriad at offeryn UE a ddiffinnir yn Atodlen 1 yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y diwygir unrhyw atodiad iddo o bryd i'w gilydd (rheoliad 2(3)); ac
- (c) rhoi Atodlen 1 ddiwygiedig (diffiniadau o ddeddfwriaeth UE) yn lle'r Atodlen 1 bresennol (rheoliad 2(5)).

- (a) substituting definitions of certain EU instruments for the definitions of the EU instruments that currently appear after the definition of "premises" in paragraph (1) of regulation 2 (interpretation) (regulation 2(2));
- (b) adding a provision that any reference to an EU instrument defined in Schedule 1 is a reference to that instrument as any annex to it is amended from time to time (regulation 2(3)); and
- (c) substituting a revised Schedule 1 (definitions of EU legislation) for the existing Schedule 1 (regulation 2(5)).

3. Yn ychwanegol, mae'r Rheoliadau hyn yn pennu ffurf a maint y marc iechyd arbennig sydd i'w osod ar gig sy'n deillio o anifeiliaid sydd wedi eu cigyddu mewn argyfwng y tu allan i'r lladd-dy (rheoliad 2(4) a (6) ac Atodlen 2).

3. In addition, these Regulations specify the form and size of the special health mark to be applied to meat derived from animals that have undergone emergency slaughter outside the slaughterhouse (regulation 2(4) and (6) and Schedule 2).

4. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o gostau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi ohono gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Caerdydd, CF10 1EW.

4. The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff, CF10 1EW.

**2012 Rhif 1765 (Cy.225)**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Hylendid Bwyd  
(Cymru) (Diwygio) (Rhif 2)  
2012**

<i>Gwnaed</i>	<i>4 Gorffennaf 2012</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>6 Gorffennaf 2012</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>30 Gorffennaf 2012</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 16(1)(e) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1) ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno(2).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion yr adran honno o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd(3).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad at offeryn UE a ddiffinnir yn Atodlen 1 gael ei ddehongli yn unol â rheoliad 2(3) fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

- 
- (1) 1990 p.16. Trosglwyddwyd swyddogaethau, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).
- (2) 1972 p.68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51).
- (3) O.S. 2005/1971. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy'r dynodiad hwn, wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

**2012 No. 1765 (W.225)**

**FOOD, WALES**

**The Food Hygiene (Wales)  
(Amendment) (No. 2) Regulations  
2012**

<i>Made</i>	<i>4 July 2012</i>
<i>Laid before the National Assembly for Wales</i>	<i>6 July 2012</i>
<i>Coming into force</i>	<i>30 July 2012</i>

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 16(1)(e) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(1) and section 2(2) of and paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972(2).

The Welsh Ministers have been designated for the purposes of that section in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food(3).

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for any reference to an EU instrument defined in Schedule 1 to be construed in accordance with regulation 2(3) as a reference to that instrument as amended from time to time.

- 
- (1) 1990 c.16. Functions so far as exercisable in relation to Wales were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the Food Standards Act 1999 (1999 c.28) and thereafter transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (2006 c.32).
- (2) 1972 c.68. Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (2006 c.51).
- (3) S.I. 2005/1971. By virtue of section 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are transferred to the Welsh Ministers.

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(1), ymgynghorwyd yn agored a thryloyw â'r cyhoedd wrth baratoi'r Rheoliadau canlynol.

## Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2012 a deuant i rym ar 30 Gorffennaf 2012.

## Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(2) yn unol â pharagraffau (2) i (6).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) yn lle'r cyfeiriadau at offerynnau UE sy'n ymddangos yn union ar ôl y diffiniad o "mangre" rhodder y cyfeiriadau canlynol—

"mae i "Penderfyniad 2006/766" ("*Decision 2006/766*"), "Penderfyniad 2011/131" ("*Decision 2011/131*"), "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*"), "Rheoliad 854/2004" ("*Regulation 854/2004*"), "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*"), "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*"), "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*"), "Rheoliad 2075/2005" ("*Regulation 2075/2005*"), "Rheoliad 1020/2008" ("*Regulation 1020/2008*"), "Rheoliad 1021/2008" ("*Regulation 1021/2008*"), "Rheoliad 219/2009" ("*Regulation 219/2009*"), "Rheoliad 596/2009" ("*Regulation 596/2009*"), "Rheoliad 669/2009" ("*Regulation 669/2009*"), "Rheoliad 1162/2009" ("*Regulation 1162/2009*"), "Rheoliad 739/2011" ("*Regulation 739/2011*"), "Rheoliad 809/2011" ("*Regulation 809/2011*"), "Rheoliad 880/2011" ("*Regulation 880/2011*"), "Rheoliad 1086/2011" ("*Regulation 1086/2011*"), "Rheoliad 1109/2011" ("*Regulation 1109/2011*"), "Rheoliad 1169/2011" ("*Regulation*

In accordance with section 48(4A) of the Food Safety Act 1990 the Welsh Ministers have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency. As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(1) there has been open and transparent public consultation during the preparation of the following Regulations.

## Title and commencement

1. The title of these Regulations is the Food Hygiene (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2012 and they come into force on 30 July 2012.

## Amendments to the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006

2.—(1) The Food Hygiene (Wales) Regulations 2006(2) are amended in accordance with paragraphs (2) to (6).

(2) In paragraph (1) of regulation 2 (interpretation) for the references to the EU instruments appearing immediately after the definition of "premises" substitute the following references—

""Decision 2006/766" ("*Penderfyniad 2006/766*"), "Decision 2011/131" ("*Penderfyniad 2011/131*"), "Directive 2004/41" ("*Cyfarwyddeb 2004/41*"), "Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*"), "Regulation 852/2004" ("*Rheoliad 852/2004*"), "Regulation 853/2004" ("*Rheoliad 853/2004*"), "Regulation 854/2004" ("*Rheoliad 854/2004*"), "Regulation 882/2004" ("*Rheoliad 882/2004*"), "Regulation 1688/2005" ("*Rheoliad 1688/2005*"), "Regulation 2073/2005" ("*Rheoliad 2073/2005*"), "Regulation 2074/2005" ("*Rheoliad 2074/2005*"), "Regulation 2075/2005" ("*Rheoliad 2075/2005*"), "Regulation 1020/2008" ("*Rheoliad 1020/2008*"), "Regulation 1021/2008" ("*Rheoliad 1021/2008*"), "Regulation 219/2009" ("*Rheoliad 219/2009*"), "Regulation 596/2009" ("*Rheoliad 596/2009*"), "Regulation 669/2009" ("*Rheoliad 669/2009*"), "Regulation 1162/2009" ("*Rheoliad 1162/2009*"), "Regulation 739/2011" ("*Rheoliad 739/2011*"), "Regulation 809/2011" ("*Rheoliad 809/2011*"), "Regulation 880/2011" ("*Rheoliad 880/2011*"), "Regulation 1086/2011" ("*Rheoliad 1086/2011*"), "Regulation 1109/2011" ("*Rheoliad 1109/2011*"), "Regulation 1169/2011" ("*Rheoliad 1169/2011*"),

(1) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC mewn cysylltiad â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu - Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

(2) O.S. 2006/31 (Cy.5), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1534 (Cy.151), O.S. 2007/373 (Cy.33), O.S. 2010/893 (Cy.92) ac O.S. 2012/975 (Cy.129).

(1) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Regulation (EC) No. 596/2009 of the European Parliament and of the Council adapting a number of instruments subject to the procedure referred to in Article 251 of the Treaty to Council Decision 1999/468/EC with regard to the regulatory procedure with scrutiny: Adaptation to the regulatory procedure with scrutiny- Part Four (OJ No. L188, 18.7.2009, p.14).

(2) S.I. 2006/31 (W.5), amended by S.I. 2006/1534 (W.151), S.I. 2007/373 (W.33), S.I. 2010/893 (W.92) and S.I. 2012/975 (W.129).

1169/2011"), "Rheoliad 1223/2011" ("Regulation 1223/2011"), "Rheoliad 1277/2011" ("Regulation 1277/2011"), "Rheoliad 16/2012" ("Regulation 16/2012") a "Rheoliad 28/2012" ("Regulation 28/2012") yr ystyr a roddir iddynt, yn eu trefn, yn Atodlen 1;".

(3) Yn union ar ôl paragraff (5) o reoliad 2, mewnosoder y paragraff canlynol—

"(6) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at offeryn UE a ddiffinnir yn Atodlen 1 yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y diwygir unrhyw atodiad iddo o bryd i'w gilydd."

(4) Yn union ar ôl rheoliad 32 (cyfyngiadau ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl a diwygiadau i Reoliadau Labelu Bwyd 1996) mewnosoder y rheoliad canlynol—

#### **"Marc iechyd arbennig**

**32A.** Rhaid i'r marc iechyd arbennig y cyfeirir ato ym mharagraff 9 o Bennod VI o Adran I o Atodiad III i Reoliad 853/2004 a pharagraff 7 o Bennod III o Adran I o Atodiad I i Reoliad 854/2004 gydymffurfio ag Atodlen 6A."

(5) Yn lle Atodlen 1 (diffiniadau o ddeddfwriaeth UE) rhodder yr Atodlen a osodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(6) Yn union ar ôl Atodlen 6 (cyfyngiadau ar werthu llaeth crai a fwriedir ar gyfer ei yfed yn uniongyrchol gan bobl) mewnosoder yr Atodlen a osodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

"Regulation 1223/2011" ("Rheoliad 1223/2011"), "Regulation 1277/2011" ("Rheoliad 1277/2011"), "Regulation 16/2012" ("Rheoliad 16/2012") and "Regulation 28/2012" ("Rheoliad 28/2012") have the meanings respectively given to them in Schedule 1;".

(3) Immediately after paragraph (5) of regulation 2 insert the following paragraph—

"(6) In these Regulations, any reference to an EU instrument defined in Schedule 1 is a reference to that instrument as any annex to it may be amended from time to time."

(4) Immediately after regulation 32 (restrictions on the sale of raw milk intended for direct human consumption and amendments to the Food Labelling Regulations 1996) insert the following regulation—

#### **"Special health mark**

**32A.** The special health mark referred to in paragraph 9 of Chapter VI of Section I of Annex III to Regulation 853/2004 and paragraph 7 of Chapter III of Section I of Annex I to Regulation 854/2004 must conform with Schedule 6A."

(5) For Schedule 1 (definitions of EU Legislation) substitute the Schedule set out in Schedule 1 to these Regulations.

(6) Immediately after Schedule 6 (restrictions on the sale of raw milk intended for direct human consumption) insert the Schedule set out in Schedule 2 to these Regulations.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers

4 Gorffennaf 2012

4 July 2012

ATODLEN 1

SCHEDULE 1

Rheoliad 2(5)

Regulation 2(5)

YR ATODLEN A RODDIR YN LLE  
ATODLEN 1 I REOLIADAU HYLENDID  
BWYD (CYMRU) 2006

SCHEDULE SUBSTITUTED FOR  
SCHEDULE 1 TO THE FOOD HYGIENE  
(WALES) REGULATIONS 2006

"ATODLEN 1

"SCHEDULE 1

Rheoliad 2(1)

Regulation 2(1)

DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH UE

DEFINITIONS OF EU LEGISLATION

Ystyr "Penderfyniad 2006/766" ("*Decision 2006/766*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2006/766/EC sy'n sefydlu rhestrau o drydydd gwledydd a thiriogaethau y caniateir mewnforio ohonynt folysgiaid deufalf, ecinodermiaid, tiwnigogion, gastropodau morol a chynhyrchion pysgodfeydd(1), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad 2011/131;

"Decision 2006/766" ("*Penderfyniad 2006/766*") means Commission Decision 2006/766/EC establishing the lists of third countries and territories from which imports of bivalve molluscs, echinoderms, tunicates, marine gastropods and fishery products are permitted(1) as last amended by Decision 2011/131;

Ystyr "Penderfyniad 2011/131" ("*Decision 2011/131*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2011/131/EU sy'n diwygio Atodiad II i Benderfyniad 2006/766/EC sy'n ymwneud â chynnwys Fiji yn y rhestr o drydydd gwledydd a thiriogaethau y caniateir mewnforio cynhyrchion pysgodfeydd ohonynt ar gyfer eu bwyta gan bobl(2);

"Decision 2011/131" ("*Penderfyniad 2011/131*") means Commission Decision 2011/131/EU amending Annexe II to Decision 2006/766/EC as regards the inclusion of Fiji in the list of third countries and territories from which imports of fishery products for human consumption are permitted(2);

Ystyr "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*") yw Cyfarwyddeb 2004/41/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diddymu rhai cyfarwyddebau ynglŷn â hylendid bwyd ac amodau iechyd ar gyfer cynhyrchu, a rhoi ar y farchnad, rhai cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl ac sy'n diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 89/662/EEC a 92/118/EEC a Phenderfyniad y Cyngor 95/408/EC(3);

"Directive 2004/41" ("*Cyfarwyddeb 2004/41*") means Directive 2004/41/EC of the European Parliament and of the Council repealing certain directives concerning food hygiene and health conditions for the production and placing on the market of certain products of animal origin intended for human consumption and amending Council Directives 89/662/EEC and 92/118/EEC and Council Decision 95/408/EC(3);

Ystyr "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*") yw Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(4), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 596/2009;

"Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*") means Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(4) as last amended by Regulation 596/2009;

(1) OJ Rhif L320, 18.11.2006, t.53.

(2) OJ Rhif L53, 26.2.2011, t.73.

(3) OJ Rhif L157, 30.4.2004, t.33. Mae testun diwygiedig Cyfarwyddeb 2004/41/EC bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L195, 2.6.2004, t.12).

(4) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.

(1) OJ No. L320, 18.11.2006, p.53.

(2) OJ No. L53, 26.2.2011, p.73.

(3) OJ No. L157, 30.4.2004, p.33. The revised text of Directive 2004/41/EC is now set out in a Corrigendum (OJ No. L195, 2.6.2004, p.12).

(4) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1.

<p>Ystyr "Rheoliad 852/2004" ("<i>Regulation 852/2004</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid deunyddiau bwyd(1), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 219/2009 ac fel y'i darllenir ynghyd â Rheoliad 2073/2005;</p>	<p>"Regulation 852/2004" ("<i>Rheoliad 852/2004</i>") means Regulation (EC) No. 852/2004 of the European Parliament and of the Council on the hygiene of foodstuffs(1) as last amended by Regulation 219/2009 and as read with Regulation 2073/2005;</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 853/2004" ("<i>Regulation 853/2004</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid(2), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 16/2012 ac fel y'i darllenir ynghyd â Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 1688/2005, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2076/2005, Rheoliad 1020/2008 a Rheoliad 1162/2009;</p>	<p>"Regulation 853/2004" ("<i>Rheoliad 853/2004</i>") means Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin(2) as last amended by Regulation 16/2012 and as read with Directive 2004/41, Regulation 1688/2005, Regulation 2074/2005, Regulation 2076/2005, Regulation 1020/2008 and Regulation 1162/2009;</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 854/2004" ("<i>Regulation 854/2004</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl(3), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 739/2011 ac fel y'i darllenir ynghyd â Chyfarwyddeb 2004/41, Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 2075/2005, Rheoliad 2076/2005, Penderfyniad 2006/766, Rheoliad 1021/2008 a Rheoliad 1162/2009;</p>	<p>"Regulation 854/2004" ("<i>Rheoliad 854/2004</i>") means Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption(3) as last amended by Regulation 739/2011 and as read with Directive 2004/41, Regulation 2074/2005, Regulation 2075/2005, Regulation 2076/2005, Decision 2006/766, Regulation 1021/2008 and Regulation 1162/2009;</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 882/2004" ("<i>Regulation 882/2004</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a wneir i sicrhau y gwir cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid(4), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 880/2011 ac fel y'i darllenir ynghyd â Rheoliad 2074/2005, Rheoliad 669/2009 a Rheoliad 1162/2009;</p>	<p>"Regulation 882/2004" ("<i>Rheoliad 882/2004</i>") means Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules(4) as last amended by Regulation 880/2011 and as read with Regulation 2074/2005, Regulation 669/2009 and Regulation 1162/2009;</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 1688/2005" ("<i>Regulation 1688/2005</i>") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1688/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â gwarantau arbennig ynghylch salmonela ar gyfer</p>	<p>"Regulation 1688/2005" ("<i>Rheoliad 1688/2005</i>") means Commission Regulation (EC) No. 1688/2005 implementing Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council as regards special guarantees concerning</p>

(1) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.3) sydd i'w ddarllen ynghyd â Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.26).

(2) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22) sydd i'w ddarllen ynghyd â Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.26).

(3) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.206. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 854/2004 bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.83) sydd i'w ddarllen ynghyd â Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.26).

(4) OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 bellach wedi ei osod mewn Corrigendwm (OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1) sydd i'w ddarllen ynghyd â Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.29).

(1) OJ No. L139, 30.4.2004, p.1. The revised text of Regulation (EC) No. 852/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.3) which is to be read with a further Corrigendum (OJ No. L204, 4.8.2007, p.26).

(2) OJ No. L139, 30.4.2004, p.55. The revised text of Regulation (EC) No. 853/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.22) which is to be read with a further Corrigendum (OJ No. L204, 4.8.2007, p.26).

(3) OJ No. L139, 30.4.2004, p.206. The revised text of Regulation (EC) No. 854/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L226, 25.6.2004, p.83) which is to be read with a further Corrigendum (OJ No. L204, 4.8.2007, p.26).

(4) OJ No. L165, 30.4.2004, p.1. The revised text of Regulation (EC) No. 882/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L191, 28.5.2004, p.1) which is to be read with a further Corrigendum (OJ No. L204, 4.8.2007, p.29).

traddodi cig ac wyau penodol i'r Ffindir a Sweden(1), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 1223/2011;	salmonella for consignments to Finland and Sweden of certain meat and eggs(1) as last amended by Regulation 1223/2011;
Ystyr "Rheoliad 2073/2005" (" <i>Regulation 2073/2005</i> ") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 ar griteria microbiolegol ar gyfer deunyddiau bwyd(2), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 1086/2011;	"Regulation 2073/2005" (" <i>Rheoliad 2073/2005</i> ") means Commission Regulation (EC) No. 2073/2005 on microbiological criteria for foodstuffs(2) as last amended by Regulation 1086/2011;
Ystyr "Rheoliad 2074/2005" (" <i>Regulation 2074/2005</i> ") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2074/2005 sy'n gosod mesurau gweithredu ar gyfer cynhyrchion penodol o dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol o dan Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n rhanddirymu Rheoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004 ac (EC) Rhif 854/2004(3), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 809/2011;	"Regulation 2074/2005" (" <i>Rheoliad 2074/2005</i> ") means Commission Regulation (EC) No. 2074/2005 laying down implementing measures for certain products under Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council and for the organisation of official controls under Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council and Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council, derogating from Regulation (EC) No. 852/2004 of the European Parliament and of the Council and amending Regulations (EC) No. 853/2004 and (EC) No. 854/2004(3) as last amended by Regulation 809/2011;
Ystyr "Rheoliad 2075/2005" (" <i>Regulation 2075/2005</i> ") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2075/2005 sy'n gosod rheolau penodol ynghylch rheolaethau swyddogol ar gyfer Trichinella mewn cig(4), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 1109/2011;	"Regulation 2075/2005" (" <i>Rheoliad 2075/2005</i> ") means Commission Regulation (EC) No. 2075/2005 laying down specific rules on official controls for Trichinella in meat(4) as last amended by Regulation 1109/2011;
Ystyr "Rheoliad 1020/2008" (" <i>Regulation 1020/2008</i> ") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1020/2008 sy'n diwygio Atodiadau II a III i Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n tarddu o anifeiliaid a Rheoliad (EC) Rhif 2076/2005 o ran marciau adnabod, llaeth crai a chynhyrchion llaeth, wyau a chynhyrchion wyau a chynhyrchion pysgodfeydd penodol(5);	"Regulation 1020/2008" (" <i>Rheoliad 1020/2008</i> ") means Commission Regulation (EC) No. 1020/2008 amending Annexes II and III to Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin and Regulation (EC) No. 2076/2005 as regards identification marking, raw milk and dairy products, eggs and egg products and certain fishery products(5);
Ystyr "Rheoliad 1021/2008" (" <i>Regulation 1021/2008</i> ") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1021/2008 sy'n diwygio Atodiadau I, II a III i Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl a Rheoliad (EC) Rhif 2076/2005 o ran molysgiaid deufalf byw, cynhyrchion pysgodfeydd penodol a staff sy'n cynorthwyo â'r rheolaethau swyddogol mewn lladd-dai(6);	"Regulation 1021/2008" (" <i>Rheoliad 1021/2008</i> ") means Commission Regulation (EC) No. 1021/2008 amending Annexes I, II and III to Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption and Regulation (EC) No. 2076/2005 as regards live bivalve molluscs, certain fishery products and staff assisting with official controls in slaughterhouses(6);

(1) OJ Rhif L271, 15.10.2005, t.17.

(2) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.1, fel y'i darllenir ynghyd â'r Corrigenda yn OJ Rhif L278, 10.10.2006, t.32 ac OJ Rhif L283, 14.10.2006, t.62.

(3) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.27.

(4) OJ Rhif L338, 22.12.2005, t.60.

(5) OJ Rhif L277, 18.10.2008, t.8.

(6) OJ Rhif L277, 18.10.2008, t.15.

(1) OJ No. L271, 15.10.2005, p.17.

(2) OJ No. L338, 22.12.2005, p.1, as read with the Corrigenda at OJ No. L278, 10.10.2006, p.32 and OJ No. L283, 14.10.2006, p.62.

(3) OJ No. L338, 22.12.2005, p.27.

(4) OJ No. L338, 22.12.2005, p.60.

(5) OJ No. L277, 18.10.2008, p.8.

(6) OJ No. L277, 18.10.2008, p.15.



<p>Ystyr "Rheoliad 219/2009" ("<i>Regulation 219/2009</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 219/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC o ran y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu - Rhan Dau(1);</p>	<p>"Regulation 219/2009" ("<i>Rheoliad 219/2009</i>") means Regulation (EC) No. 219/2009 of the European Parliament and of the Council adapting a number of instruments subject to the procedure referred to in Article 251 of the Treaty to Council Decision 1999/468/EC with regard to the regulatory procedure with scrutiny: Adaptation to the regulatory procedure with scrutiny - Part Two(1);</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 596/2009" ("<i>Regulation 596/2009</i>") yw Rheoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC o ran y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu - Rhan Pedwar(2), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 1169/2011;</p>	<p>"Regulation 596/2009" ("<i>Rheoliad 596/2009</i>") means Regulation (EC) No. 596/2009 of the European Parliament and of the Council adapting a number of instruments subject to the procedure referred to in Article 251 of the Treaty to Council Decision 1999/468/EC with regard to the regulatory procedure with scrutiny: Adaptation to the regulatory procedure with scrutiny - Part Four(2) as last amended by Regulation 1169/2011;</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 669/2009" ("<i>Regulation 669/2009</i>") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 669/2009 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch y cynnydd yn lefel y rheolaethau swyddogol ar fewnforio bwyd anifeiliaid penodol a bwyd penodol nad yw'n tarddu o anifeiliaid ac yn diwygio Penderfyniad 2006/504/EC(3), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 1277/2011;</p>	<p>"Regulation 669/2009" ("<i>Rheoliad 669/2009</i>") means Commission Regulation (EC) No. 669/2009 implementing Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council as regards the increased level of official controls on imports of certain feed and food of non-animal origin and amending Decision 2006/504/EC(3) as last amended by Regulation 1277/2011;</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 1162/2009" ("<i>Regulation 1162/2009</i>") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1162/2009 sy'n gosod mesurau trosiannol ar gyfer gweithredu Rheoliadau (EC) Rhif 853/2004, (EC) Rhif 854/2004 ac (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor(4), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad 28/2012 ac fel y'i darllenir ynghyd ag ail is-baragraff Erthygl 54(3) o Reoliad 1169/2011;</p>	<p>"Regulation 1162/2009" ("<i>Rheoliad 1162/2009</i>") means Commission Regulation (EC) No. 1162/2009 laying down transitional measures for the implementation of Regulations (EC) No. 853/2004, (EC) No. 854/2004 and (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council(4) as last amended by Regulation 28/2012 and as read with the second sub-paragraph of Article 54(3) of Regulation 1169/2011;</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 739/2011" ("<i>Regulation 739/2011</i>") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 739/2011 sy'n diwygio Atodiad I i Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir i'w bwyta gan bobl(5);</p>	<p>"Regulation 739/2011" ("<i>Rheoliad 739/2011</i>") means Commission Implementing Regulation (EU) No. 739/2011 amending Annex I to Regulation (EC) No. 854/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific rules for the organisation of official controls on products of animal origin intended for human consumption(5);</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 809/2011" ("<i>Regulation 809/2011</i>") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2011 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2074/2005 o ran dogfennau sy'n mynd gyda mewnfôrion o gynhyrchion pysgodfeydd sydd wedi eu rhewi ac sy'n dod yn uniongyrchol o lestr rhewi(6);</p>	<p>"Regulation 809/2011" ("<i>Rheoliad 809/2011</i>") means Commission Implementing Regulation (EU) No. 809/2011 amending Regulation (EC) No. 2074/2005 as regards documentation accompanying imports of frozen fishery products directly from a freezer vessel(6);</p>

(1) OJ Rhif L87, 31.3.2009, t.109.

(2) OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14.

(3) OJ Rhif L194, 25.7.2009, t.11.

(4) OJ Rhif L314, 1.12.2009, t.10.

(5) OJ Rhif L196, 28.7.2011, t.3.

(6) OJ Rhif L207, 12.8.2011, t.1.

(1) OJ No. L87, 31.3.2009, p.109.

(2) OJ No. L188, 18.7.2009, p.14.

(3) OJ No. L194, 25.7.2009, p.11.

(4) OJ No. L314, 1.12.2009, p.10.

(5) OJ No. L196, 28.7.2011, p.3.

(6) OJ No. L207, 12.8.2011, p.1.

<p>Ystyr "Rheoliad 880/2011" ("<i>Regulation 880/2011</i>") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 880/2011 sy'n cywiro Rheoliad (EU) Rhif 208/2011 sy'n diwygio Atodiad VII i Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliadau'r Comisiwn (EC) Rhif 180/2008 ac (EC) Rhif 737/2008 o ran rhestrau o labordai cyfeirio UE a'u henwau(1);</p>	<p>"Regulation 880/2011" ("<i>Rheoliad 880/2011</i> ") means Commission Regulation (EU) No. 880/2011 correcting Regulation (EU) No. 208/2011 amending Annex VII to Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council and Commission Regulations (EC) No. 180/2008 and (EC) No. 737/2008 as regards lists and names of EU reference laboratories(1);</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 1086/2011" ("<i>Regulation 1086/2011</i>") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 1086/2011 sy'n diwygio Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ac Atodiad I i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005 o ran salmonella mewn cig dofednod ffres(2);</p>	<p>"Regulation 1086/2011" ("<i>Rheoliad 1086/2011</i>") means Commission Regulation (EU) No. 1086/2011 amending Annex II to Regulation (EC) No. 2160/2003 of the European Parliament and of the Council and Annex I to Commission Regulation (EC) No. 2073/2005 as regards salmonella in fresh poultry meat(2);</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 1109/2011" ("<i>Regulation 1109/2011</i>") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1109/2011 sy'n diwygio Atodiad I i Reoliad (EC) Rhif 2075/2005 o ran y dulliau cyfwerth o brofi am Trichinella(3);</p>	<p>"Regulation 1109/2011" ("<i>Rheoliad 1109/2011</i>") means Commission Implementing Regulation (EU) No. 1109/2011 amending Annex I to Regulation (EC) No. 2075/2005 as regards the equivalent methods for Trichinella testing(3);</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 1169/2011" ("<i>Regulation 1169/2011</i>") yw Rheoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, sy'n diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 1924/2006 ac (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb y Comisiwn 87/250/EEC, Cyfarwyddeb y Cyngor 90/496/EEC, Cyfarwyddeb y Comisiwn 1999/10/EC, Cyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor, Cyfarwyddebau'r Comisiwn 2002/67/EC a 2008/5/EC a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 608/2004(4);</p>	<p>"Regulation 1169/2011" ("<i>Rheoliad 1169/2011</i>") means Regulation (EU) No. 1169/2011 of the European Parliament and of the Council on the provision of food information to consumers, amending Regulations (EC) No. 1924/2006 and (EC) No. 1925/2006 of the European Parliament and of the Council, and repealing Commission Directive 87/250/EEC, Council Directive 90/496/EEC, Commission Directive 1999/10/EC, Directive 2000/13/EC of the European Parliament and of the Council, Commission Directives 2002/67/EC and 2008/5/EC and Commission Regulation (EC) No. 608/2004(4);</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 1223/2011" ("<i>Regulation 1223/2011</i>") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1223/2011 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1688/2005 o ran samplu'r heidiau y mae wyau'n tarddu ohonynt ac archwiliadau microbiolegol o samplau o'r fath a samplau o gig penodol a fwriedir ar gyfer y Ffindir a Sweden(5);</p>	<p>"Regulation 1223/2011" ("<i>Rheoliad 1223/2011</i>") means Commission Implementing Regulation (EU) No. 1223/2011 amending Regulation (EC) No. 1688/2005 as regards sampling of flocks of origin of eggs and the microbiological examination of such samples and samples of certain meat intended for Finland and Sweden(5);</p>
<p>Ystyr "Rheoliad 1277/2011" ("<i>Regulation 1277/2011</i>") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1277/2011 sy'n diwygio Atodiad I i Reoliad (EC) Rhif 669/2009 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y lefel uwch o reolaethau swyddogol ar fewnforio bwyd anifeiliaid penodol a bwyd penodol nad yw'n tarddu o anifeiliaid(6);</p>	<p>"Regulation 1277/2011" ("<i>Rheoliad 1277/2011</i>") means Commission Implementing Regulation (EU) No. 1277/2011 amending Annex I to Regulation (EC) No. 669/2009 implementing Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council as regards the increased level of official controls on imports of certain feed and food of non-animal origin(6);</p>

(1) OJ Rhif L228, 3.9.2011, t.8.

(2) OJ Rhif L281, 28.10.2011, t.7.

(3) OJ Rhif L287, 4.11.2011, t.23.

(4) OJ Rhif L304, 22.11.2011, t.18.

(5) OJ Rhif L314, 29.11.2011, t.12.

(6) OJ Rhif L327, 19.12.2011, t.42.

(1) OJ No. L228, 3.9.2011, p.8.

(2) OJ No. L281, 28.10.2011, p.7.

(3) OJ No. L287, 4.11.2011, p.23.

(4) OJ No. L304, 22.11.2011, p.18.

(5) OJ No. L314, 29.11.2011, p.12.

(6) OJ No. L327, 19.12.2011, p.42.

Ystyr "Rheoliad 16/2012" ("*Regulation 16/2012*") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 16/2012 sy'n diwygio Atodiad II i Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y gofynion sy'n ymwneud â bwyd wedi ei rewi, sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir ar ei fwyta gan bobl(1);

Ystyr "Rheoliad 28/2012" ("*Regulation 28/2012*") yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 28/2012 sy'n gosod gofynion ardystio ar gyfer mewnfario cynhyrchion cyfansawdd penodol i'r Undeb, a chludo'r cynhyrchion hynny drwyddo, ac sy'n diwygio Penderfyniad 2007/275/EC a Rheoliad (EC) Rhif 1162/2009(2)."

"Regulation 16/2012" ("*Rheoliad 16/2012*") means Commission Regulation (EU) No. 16/2012 amending Annex II to Regulation (EC) No. 853/2004 of the European Parliament and of the Council as regards the requirements concerning frozen food of animal origin intended for human consumption(1);

"Regulation 28/2012" ("*Rheoliad 28/2012*") means Commission Regulation (EU) No. 28/2012 laying down requirements for the certification for imports into and transit through the Union of certain composite products and amending Decision 2007/275/EC and Regulation (EC) No. 1162/2009(2)."

---

(1) OJ Rhif L8, 12.1.2012, t.29.

(2) OJ Rhif L12, 14.1.2012, t.1.

---

(1) OJ No. L8, 12.1.2012, p.29.

(2) OJ No. L12, 14.1.2012, p.1.

## ATODLEN 2

Rheoliad 2(6)

YR ATODLEN SYDD I'W MEWNOSOD YN  
UNION AR ÔL ATODLEN 6 I REOLIADAU  
HYLENDID BWYD (CYMRU) 2006

"ATODLEN 6A

Rheoliad 32A

### Y MARC IECHYD ARBENNIG

1. Rhaid i farc ieched arbennig fod yn farc sgwâr gyda'r nodau canlynol mewn ffurf ddarllenadwy arno:

- ar y rhan uchaf, y llythrennau "UK";
- yn y canol, rhif cymeradwyo'r fangre; ac
- ar y rhan isaf, y llythyren "N".

2. Pan osodir y marc ieched arbennig ar garcasau, rhaid i'r marc fesur 5.5 cm wrth 5.5 cm a rhaid i uchder y llythrennau sydd arno fod yn 0.8 cm ac uchder y rhifau yn 1 cm. Caniateir i ddimensiynau a nodau'r marc fod yn llai pan osodir y marc ieched ar wŷyn, mynnod gafr a pherchyll."

---

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## SCHEDULE 2

Regulation 2(6)

SCHEDULE TO BE INSERTED  
IMMEDIATELY AFTER SCHEDULE 6 TO  
THE FOOD HYGIENE (WALES)  
REGULATIONS 2006

"SCHEDULE 6A

Regulation 32A

### THE SPECIAL HEALTH MARK

1. The special health mark must consist of a square mark containing in legible form the following characters:

- on the upper part, the letters "UK";
- in the centre, the approval number of the premises; and
- on the lower part, the letter "N".

2. When applied to carcasses, the special health mark must measure 5.5 cm by 5.5 cm and contain letters 0.8 cm high and figures 1 cm high. The dimensions and characters of the mark may be reduced for health marking of lamb, kids and piglets."

---

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.